



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Papur Trafod

Rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni gweledigaeth Ysgolion Bro yng Nghymru

Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau
Inspiring Leaders - Enriching Lives



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Cyflwyniad

Pwrpas y papur trafod hwn yw ymchwilio i gwestiwn allweddol ac amserol: “Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth gyflawni gweledigaeth Ysgolion Bro yng Nghymru?” Nod yr ymholiad hwn a gynhaliwyd gan Gymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yw taflu goleuni ar y rôl ganolog y mae arweinyddiaeth addysgol yn ei chwarae wrth wireddu’r nodau uchelgeisiol a nodir ar gyfer Ysgolion Bro yng nghyd-destun unigryw Cymru. Mewn tirwedd addysgol sy’n esblygu’n gyflym, lle mae’r cydadwaith rhwng ysgolion a’u cymunedau cyfagos yn dod yn fwy arwyddocaol, mae’n hanfodol deall rôl ddynamig arweinyddiaeth wrth gyflawni trawsnewidiad addysgol a chymdeithasol.

Mae Ysgolion Bro yng Nghymru ar flaen y gad o ran arloesi addysgol a chynnydd cymdeithasol. Maent yn rhagweld dyfodol lle nad canolfannau dysgu yn unig yw ysgolion, ond hybiau bywiog hefyd sy’n meithrin cydweithredu, ymgysylltu a datblygu cymunedol cynaliadwy. Mae cyflawni’r weledigaeth hon yn gofyn am ddealltwriaeth gynnil o’r arferion a’r strategaethau arweinyddiaeth amlochrog a all ysgogi newid cadarnhaol.

Cefndir

Yn rhinwedd eu swydd fel Cymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, eu mandad oedd cynnal comisiwn i agweddau, pryderon a dyheadau arweinwyr addysgol mewn ymateb i Bolisi Llywodraeth Cymru ar y cysyniad o Ysgolion Bro. Penderfynwyd bod arweinwyr addysgol yn golygu casglu safbwyntiau ehangach na safbwyntiau arweinwyr ysgolion yn unig. Mae'r polisi Ysgolion Bro wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys partneriaid blaenorol a phresennol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a chwaraeodd ran annatod yn y grwpiau llywio ac ymholi. Cyfarfu'r grŵp cyfeirio allanol yn rheolaidd i adolygu pob rhan o'r polisi a gwahoddwyd hwy i roi adborth ar y dogfennau a'r canllawiau allweddol.

Dechreuodd y comisiwn gyda chyfnod o ragchwilio ac ymchwiliadau cychwynnol i ddeall gweledigaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ysgolion Bro. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad o ddogfennaeth sydd ar gael. Y prif amcan oedd cael dealltwriaeth o'r canllawiau a'r canlyniadau a fwriadwyd, yn ymestyn o gyd-destun micro-leol a rhanbarthol i lefel macro-genedlaethol a rhyngwladol.

Roedd yr ymchwiliad yn ymestyn nid yn unig i sefydliadau addysgol yng Nghymru ond hefyd i leoliadau addysgol rhyngwladol, yn enwedig yr Unol Daleithiau a Singapore.

Wrth i'r gyd-ddealltwriaeth esblygu mewn perthynas ag amcanion y gorffennol, y presennol a'r dyfodol o fewn fframwaith gweledigaeth Ysgolion Bro, fe wnaeth y garfan o Gymdeithion lunio cyfres o gwestiynau a phynciau i'w trafod. Hysbysodd yr adnoddau hyn gyfres o gyfweliadau lled-strwythuredig â rhanddeiliaid, gan gynnwys arweinwyr ym meysydd addysg, gwasanaethau cymdeithasol, datblygu ieuenctid, gofal iechyd, a'r trydydd sector.

O fewn y storfa hon, daeth themâu rheolaidd, cwestiynau canolog, a safbwyntiau amrywiol i'r amlwg. Yn gyffredinol, datgelodd y cyfweliadau gymeradwyaeth ysgubol i weledigaeth, gwerthoedd a dyheadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ysgolion Bro. Dywedodd rhanddeiliaid, yn gyffredinol, fod yr amcanion hyn yn rhan annatod o les plant, pobl ifanc a'r cymunedau ehangach y maent yn eu gwasanaethu.

Fodd bynnag, o fewn yr optimistiaeth gyffredinol, daeth yn amlwg bod pryderon ynghylch rôl arweinwyr addysgol wrth wireddu'r weledigaeth yn ymarferol. Parhaodd amheuaeth, yn deillio o ymdrechion blaenorol a bodolaeth hir y fframwaith cysyniadol hwn o fewn tirwedd polisi Llywodraeth Cymru am gyfnod o fwy na dau ddegawd. Yn ogystal, roedd ymdeimlad o anesmwythyd am fecanweithiau cyllido Ysgolion Bro, yn enwedig o fewn yr amgylchedd ariannol presennol. Ar ben hynny, mynegodd arweinwyr addysgol amheuon ynghylch dyrannu adnoddau yn deg, hwyluso mentrau dysgu allgyrsiol, a'u cyfrifoldebau penodol ynghylch cydleoli disgywliedig gwahanol wasanaethau.

Dylid nodi hefyd, yn ystod y prosiect, bod canllawiau atodol wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar Ysgolion

Diffiniad o Arweinyddiaeth Addysgol

Ar gyfer y comisiwn hwn, cymerwyd bod y term arweinyddiaeth addysgol yn cyfeirio at bob arweinydd yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb ar y cyd dros ddysgu a lles plant a phobl ifanc drwy addysg.

Mae hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Haen ganol (Estyn, Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, Consortia Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol ac ati)
- Arweinwyr mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant
- Arweinwyr gwasanaethau sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros addysg a lles plant a phobl ifanc (Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwaith Ieuencid, Gwirfoddol, Iechyd a'r Trydydd Sector ac ati).

Diffiniad o Ysgol Fro

Wrth gynnal yr ymchwiliad, daeth yn amlwg bod angen gwneud rhagor o waith i egluro'r diffiniad o 'Ysgol Fro' yng Nghymru. Er bod diffiniad a model yn y canllawiau roedd hyn yn cael ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd gan arweinwyr. Amlygwyd y dryswch hefyd gan fod yna ddisgrifiadau a nodweddion lluosog o'r canfyddiad o Ysgol Fro (e.e. Mae Estyn 2020 yn nodi 8 nodwedd o'r hyn a ystyrir yn Ysgol Fro). Dangosodd yr ymholiad sut y derbyniwyd y polisi a'r canllawiau yn wahanol iawn ar draws y rhanbarthau yn dibynnu ar sut y cawsant eu cyflwyno a'u defnyddio. Nododd y Cymdeithion fod Los Angeles wedi datblygu diffiniad clir sydd wedi'i ymgorffori mewn polisi ac ymarfer dros gyfnod o amser. Mae ymchwil Dr Steve Constantino a'i '5 Egwyddor Syml' wedi dylanwadu ar ddull y gwledydd a gall gefnogi ein camau nesaf yng Nghymru.

Adolygiad Llenyddiaeth

Fel rhan o'r prosiect, casglodd y Cymdeithion yr holl ddogfennau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag Ysgolion Bro ers datganoli (fel y rhestrir isod Tabl 1).

Tabl 1. Llinell amser gronolegol Gweledigaeth Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru

Dyddiad ac enw'r ddogfen	Negeseuon allweddol o'r ddogfen
1997 Datganoli Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Mae'r cysyniad o ysgolion bro wedi bod yn rhan o bolisi addysg Cymru ers blynyddoedd cynnar datganoli.
2001 Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Y Wlad sy'n Dysgu'	Mae plant sy'n cymryd rhan mewn dysgu y tu allan i oriau ysgol yn gwneud yn well na'r hyn y byddid wedi'i ddisgwyl o fesurau sylfaenol mewn cyrhaeddiad academiaidd, agweddau at ysgol a phresenoldeb yn yr ysgol (MacBeath et al, 2001). Yn 2001 cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Y Wlad sy'n Dysgu' a oedd yn argymhell y dylai ysgolion ddatblygu perthynas agosach â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. "Rydym am i ysgolion weithredu fel adnodd yn y gymuned – nid yn ystod oriau ysgol yn unig ond y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau hefyd".
Menter Ysgolion Bro CCC 2003	<p>Canfu ymchwil Desforges ac Abouchar 'The impact of parental involvement, parental support and family education on pupil achievement and adjustment (2003) bod:</p> <p>14.9% o fywydau disgyblion yn cael eu treulio mewn addysg (yn seiliedig ar bresenoldeb da gan ddisgyblion). Maent yn treulio gweddill eu hamser yn eu hamgylcheddau cartref a'u cymunedau.</p> <p>Pan yn 7 oed, mae dylanwad rhieni ar ddysgu 6 gwaith yn fwy na'r ysgol. Pan yn 11 oed, mae dylanwad rhieni 30 y cant yn fwy na'r ysgol. I grynhoi, mae cyfranogiad rhieni yn ffactor sylweddol wrth lunio canlyniadau addysgol.</p> <p>Ar yr adeg hon, sefydlodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y fenter Ysgolion Bro.</p> <p>Roedd y cylchlythyr yn diffinio ysgol fro fel un sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Roedd cyllid grant yn cynorthwyo ysgolion i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau sy'n cwmpasu gofal plant, dysgu gydol oes, darpariaeth iaith, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, gwasanaeth chwarae i blant a phobl ifanc, dysgu y tu allan i oriau, profiad gwaith, gwasanaethau i'r gymuned a mynediad at adnoddau TG (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003).</p>
2007 Papur Estyn Trawsnewid Ysgolion	Roedd papur trafod Estyn, 'Trawsnewid Ysgolion' (2007) yn cydnabod bod ysgolion 'yn dechrau cydweithio'n agosach â phartneriaid, yn agor eu drysau i'r gymuned ac yn meithrin cysylltiadau â theuluoedd.'
2010 CCC Y Wlad sy'n Dysgu	<p>Mae Y Wlad sy'n Dysgu: rhaglen gynhwysfawr addysg a dysgu gydol oes ar gyfer 2010 a ysgrifennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) yn cyfeirio'n benodol at ysgolion bro. Mae'r ddogfen bolisi'n cyfeirio at yr awydd i weld perthynas llawer agosach rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.</p> <p>Yn benodol, mae'r polisi yn amlinellu'r uchelgais y dylai ysgolion gael eu gwreiddio mewn cyd-destun cymunedol eang a bod yn rhan annatod o feithrin gallu cymunedol – gan ddarparu sylfaen ar gyfer darparu, nid addysg a hyfforddiant yn unig ond amrywiaeth o wasanaethau eraill hefyd fel cymorth i deuluoedd, iechyd a hyrwyddo menter.</p> <p>O 2010, ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned fu'r prif ffactor sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â'r ffocws cenedlaethol o fynd i'r afael ag effaith tlodi ac anfantais ar gyflawniad addysgol.</p>
2013 Canllaw Llywodraethwyr Ysgolion Llywodraeth Cymru i'r Gyfraith	Cadarnhaodd Canllaw Llywodraethwyr Ysgolion Llywodraeth Cymru i'r Gyfraith (Pennod 27) (2013b) y diffiniad o ysgol fro ac mae'n mynd ymlaen i nodi gwasanaethau allweddol i'w darparu gan ysgol fro fel gofal plant, dysgu gydol oes, darpariaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon, gwasanaethau ieuencid, dysgu y tu allan i oriau a gwasanaethau cymunedol.

<p>2014 Llywodraeth Cymru Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru</p>	<p>Yn 2014, dywedodd adroddiad 'Cymwys am Oes' Llywodraeth Cymru fod y rhan fwyaf o ysgolion a cholegau'n gwybod bod gweithio gyda rhieni/gofalwyr, cyflogwyr a'u cymunedau yn rhan bwysig o'r hyn maen nhw'n ei wneud i gefnogi eu dysgwyr i gyflawni eu potensial. Roedd hyn yn cyd-fynd â rhaglen Llywodraeth Cymru 'Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (2014). Roedd ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn un o bedair thema'r rhaglen a'r nod oedd codi cyrhaeddiad addysgol plant o gymunedau difreintiedig. Yn ogystal, galwodd y rhaglen am wneud pob ysgol yn ysgol fro.</p>
<p>2015 Llywodraeth Cymru: pecyn cymorth wynebu'r her gyda'n gilydd</p>	<p>Mewn ymateb i geisiadau gan ysgolion am gymorth i gynllunio a darparu ymgysylltiad teuluol a chymunedol effeithiol fel rhan o ddull ysgol gyfan, cyhoeddwyd 'Wynebu'r her gyda'n gilydd: Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru' yn 2015. Roedd hyn yn rhoi arweiniad ac adnoddau ymarferol i ysgolion ar sut i ymgysylltu â theuluoedd plant sy'n tanberfformio a phlant o gefndiroedd difreintiedig nad oes ganddynt fawr o gefnogaeth i'w dysgu gartref.</p>
<p>2017 Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru: y strategaeth genedlaethol</p>	<p>Mae polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru, <i>Addysg yng Nghymru: Ein cenhadaeth genedlaethol (2017-21)</i>, yn cyfeirio at botensial ysgolion bro yng Nghymru. Mae <i>Ffyniant i bawb: y Strategaeth Genedlaethol (Llywodraeth Cymru, 2017b)</i> yn cydnabod bod angen i 'wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn y sector gwirfoddol weithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion cyffredin, i ganolbwyntio ar anghenion pobl, ar bob adeg o'u bywydau ac ym mhob rhan o Gymru'. Mae'r weledigaeth a fynegwyd yn <i>Ffyniant i Bawb</i> yn cyflwyno 'model newydd o Ganolfannau Dysgu Cymunedol a fydd yn darparu ystod estynedig o wasanaethau, megis gofal plant, cymorth i rieni, dysgu i deuluoedd a mynediad at gyfleusterau i'r gymuned, a hynny oll wedi'i ddatblygu o amgylch y diwrnod ysgol' (Llywodraeth Cymru, 2017b, t.16). Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Safonau Arweinyddiaeth Proffesiynol Cenedlaethol yn 2017. Mae datblygu a chryfhau ymgysylltiad a phartneriaethau teuluol a chymunedau ehangach yn nodwedd yn y rhan fwyaf o'r pum elfen.</p>
<p>2020 Ysgolion Bro Estyn</p>	<p>Ym mis Gorffennaf 2020 cyhoeddodd Estyn ei adroddiad ôl-bandemig 'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol'. Mae'r adroddiad yn galw ar ysgolion i gryfhau ymgysylltiad teuluol a chymunedol, ehangu'r defnydd o'u hasedau er budd y gymuned a chyflwyno cydleoli gwasanaethau. Mae'n amlinellu nodweddion diffiniol ysgolion bro yn ogystal â dulliau effeithiol ac astudiaethau achos.</p>
<p>2022 Canllawiau Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru</p>	<p>Mae hyn yn ein harwain at y Canllawiau Ysgolion Bro a model Tachwedd 2022 y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w cymeradwyo a'u cefnogi.</p> <p>Dyma'r canllawiau oedd ar gael adeg cynnal yr ymchwiliad.</p>

Bu'r Cymdeithion yn rhagchwilio ac adolygu llenyddiaeth polisi cyfredol; arweiniodd hyn at greu rhai cwestiynau ymholiad cychwynnol. Cafodd cyfres o gwestiynau eu treialu gydag arweinwyr ar draws pob sector addysgol. Yna cawsant eu mireinio i'r canlynol.

1. Beth yw'r diffiniad o Ysgol Fro?
2. Beth yw'r weledigaeth ar gyfer Ysgol Fro? Sut fyddwch chi'n mynd ati i'w gweithredu?
3. Beth sydd angen ei wneud i sicrhau ymrwymiad a thegwch?
4. A allai gwasanaethau eraill gael Ysgolion Bro yn eu cylch gwaith?
5. Sut fydd gwasanaethau eraill yn cefnogi Ysgolion Bro gyda darpariaeth brin yn y meysydd hyn?
6. Beth yw'r rhwystrau i weithredu Ysgolion Bro yn llwyddiannus?
7. A yw Ysgol Fro yn addas ar gyfer pob ysgol neu ysgolion sydd â lefelau uchel o amddifadedd economaidd-gymdeithasol.
8. Sut fydd ysgolion yn cynnal ffocws ar addysgu a dysgu?
9. Yn ystod Covid newidiodd cylch gwaith ysgolion a chafodd y prosesau atebolrwydd ar gyfer addysgu a dysgu eu hoedi. A yw'r cylch gwaith i ysgolion wedi newid ers Covid?
10. A oes asesiad effaith wedi'i gwblhau i ddiogelu lles a llwyth gwaith yr arweinydd?
11. Beth yw'r gwerthusiadau o gynlluniau peilot cyllid cyfredol e.e. ymestyn y diwrnod ysgol, rheolwr bro a swyddog ymgysylltu â theuluoedd?
12. A fydd ESTYN yn adrodd ar Ysgolion Bro?
13. Sut mae'r Llywodraeth Cymru'n diffinio amddifadedd?

Casglu Data

Er mwyn casglu amrywiaeth o safbwyntiau, cynhaliwyd holiaduron, cyfweiliadau unigol a grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid a nodwyd, gan gwmpasu arweinwyr addysgol, cynrychiolwyr cymunedol, a gweithwyr proffesiynol o wahanol sectorau. Yn ogystal, hwylusodd y Cymdeithion drafodaethau â Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr haen ganol. Roedd cymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol yn cyfoethogi'r drafodaeth ymhellach, tra bod dadansoddiad rhanddeiliaid trylwyr wedi helpu i fapio dylanwadwyr a diddordebau allweddol. Yn nodedig, ehangodd y Cymdeithion eu gwybodaeth y tu hwnt i Gymru, gyda dau Gydymaith yn ymweld â Los Angeles ac un yn ymweld â Singapore, a thrwy hynny ymgorffori safbwyntiau rhyngwladol gwerthfawr yn eu hymholiad.

Yn dilyn y cyfnod casglu data, dadansoddodd y Cymdeithion y data a gasglwyd a chytuno ar yr argymhellion canlynol isod:

Argymhellion:

1. Cynllunio strategol ac ariannu:

Ail-fframio'r teitl 'Ysgolion Bro.'

Mae'r cysyniad a'r arweiniad ar gyfer Ysgolion Bro yn rhoi pwyslais anfwriadol posibl ar hyn fel gweledigaeth ar gyfer ysgolion ac nid cydweithrediad traws-wasanaeth i ymgysylltu â thelueoedd a chymunedau er budd plant a phobl ifanc. Os ydym am weld ei fod yn gyfrifoldeb i bob arweinydd addysgol, yna mae angen i'r teitl wneud hyn yn glir. Mae'r canllawiau'n nodi.

'Yr angen i'r holl rhanddeiliaid helpu i ddatblygu a gwireddu'r weledigaeth ar gyfer yr ysgol, telueoedd a chymunedau.' Mae hyn yn llawer mwy na rôl i arweinwyr ysgolion yn unig.

Mae yna risg sylweddol bod yr ymadrodd Ysgol Fro yn eithrio rhanddeiliaid allweddol ac yn rhwystro'r cysyniad arweinyddiaeth gydweithredol, gan ddadrymuso asiantaethau partner eraill wrth osod cyfrifoldeb ar arweinwyr ysgol ac addysgol yn awtomatig.

Dylai teitl arall nodi'n benodol mai gweledigaeth ar y cyd yw hon ar gyfer yr holl wasanaethau a rhanddeiliaid a bod atebolrwydd ar bob arweinydd gwasanaethau yng Nghymru i gydweithio i gyflawni'r weledigaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Ni all ysgolion fod yn gyfrifol am weithredu a darparu Ysgol Fro yn llwyddiannus ar eu pen eu hunain.

Sicrhau polisi ac atebolrwydd traws-sector ar gyfer Dull Bro

Dylai Llywodraeth Cymru greu polisi traws-sector gydag atebolrwydd penodol ar y cyd am gyflawni a llwyddiant dull Bro.

Dylai pob sector sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc fod yn cyd-fynd â'r weledigaeth, y dogfennau cyfarwyddyd a'r polisi yn y pen draw ar gyfer uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Ysgolion Bro yn cael eu darparu.

Mae angen rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer pob un o'r arweinwyr addysgol e.e. iechyd, addysg, gwasanaethau plant a chymdeithasol i sicrhau cydweithrediad ac eglurder ynghylch cyfrifoldeb.

Dylai mesurau atebolrwydd fod yn debyg ar draws sectorau mewn perthynas â pholisi a disgywiliadau Dull Bro.

Ni all y cyfrifoldeb am Ddull Bro o fynd i'r afael â thlodi ar ganlyniadau addysgol fod yn gyfrifoldeb penaethiaid ac arweinwyr ysgolion yn unig.

Mae ysgolion yn rhan annatod o hyb Ysgolion Bro ond NID yr hyb ei hun.

Blaenoriaethu a chefnogi llwyth gwaith a lles arweinwyr ysgolion yn systematig.

Ar hyn o bryd mae arweinwyr addysgol yn arwain, rheoli a gweithredu newidiadau polisi sylweddol mewn perthynas â dulliau pedagogiaidd sylfaenol a thrawsnewidiol e.e. Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cwricwlwm i Gymru, yr Agenda Cydraddoldeb Hiliol ac ati. Er bod canllawiau'r Ysgolion Bro yn cyfeirio at alinio â phob un o'r polisiâu hyn, mae arweinwyr yn poeni am yr agweddau ymarferol, yr adnoddau a'r cyllid. Unwaith eto, mae angen arweinyddiaeth gydweithredol rhwng arweinwyr i alluogi'r holl newidiadau hyn i ddwyn ffrwyth. Dylai'r llinyn euraidd o Fro fod yn benodol ym mhob polisi sector traws-sector Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arweinwyr ar draws sectorau'n deall eu cyfrifoldeb ar y cyd.

Mynegodd arweinwyr addysgol bryderon gweithredol mewn perthynas â chyfrifoldebau rheoli eiddo, hygyrchedd, diogelu a goblygiadau ariannol.

Bydd mwy o eglurder ynghylch cyfrifoldeb cyfunol ac atebolrwydd rhanddeiliaid, e.e. iechyd, yn sicrhau model cydweithredol go iawn nad yw'n niweidiol i les a llwyth gwaith arweinwyr ysgolion.

Dylai ystyriaeth lawn ar gyfer lles a llwyth gwaith arweinwyr fod yn flaenoriaeth (e.e. asesiad effaith llwyth gwaith/rheoli straen). Mae angen ystyried yr argyfwng recriwtio arweinwyr rydym yn ei wynebu yng Nghymru.

Yn ddiethriad, mae gan arweinwyr addysgol a gyfwelwyd weledigaeth ac uchelgais gadarnhaol o Ysgolion Bro i gefnogi POB dysgwr a chydabod manteision y dull hwn. Fodd bynnag, roedd gan y mwyafrif helaeth o arweinwyr ysgolion a gyfrannodd at yr ymchwiliad bryderon mewn perthynas â llwyth gwaith a lles ac roeddent yn cwestiynu a ddylai cyfrifoldeb ac atebolrwydd ychwanegol am Ysgolion Bro fod gyda Phenaethiaid.


Ensure that Welsh Government policy, planning and funding is strategic, transparent and sustainable.

Mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2022) yn ddefnyddiol wrth gefnogi ysgolion i ddeall nodweddion a manteision gweithio ar sail bro.

Fodd bynnag, mae angen gweithredu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau ymrwymiad yr holl bartneriaid (e.e. iechyd, gwasanaethau cymdeithasol).

Dylai'r polisi amlinellu cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer yr haen ganol, wrth sbarduno a hwyluso agenda'r Ysgolion Bro ar lefel leol.

Model cyfarwyddyd Ysgolion Bro
Llywodraeth Cymru:



Yn gyffredinol, mae ysgolion yn llwyddo i ddatblygu modelau creadigol ac arloesol ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltu â theuluoedd. Gwneir hyn yn gyffredinol gyda symiau bach o gyllid, ewyllys da ac ymrwymiad arweinydd ysgol. Er mwyn sicrhau bod yr ail biler a'r trydydd piler yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus, dylai polisi Llywodraeth Cymru ddiffinio'n glir beth yw cyfrifoldeb ac atebolrwydd gwasanaethau eraill.

Dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu model tryloyw a theg ar gyfer Ysgolion Bro sy'n hwyluso cydweithredu effeithiol ymhlith arweinwyr ysgolion, gwasanaethau a phartneriaid i ddeall anghenion eu cymunedau. Mae hyn yn cynnwys proses gynllunio a gwerthuso strategol ar gyfer cyllid grant.

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw polisi, cynllunio, cyllid ac atebolrwydd yn arwain at ragfarnau anfwriadol, systemau wedi'u graddio neu strwythur cystadleuol sy'n gweithio yn erbyn egwyddorion cydweithio.

Mynegodd arweinwyr addysgol ddryswch ynghylch cylch gwaith arfaethedig canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ysgolion Bro. Mae'r canllawiau'n nodi bod Ysgolion Bro yn rhan allweddol o'n gwaith polisi ehangach sy'n mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol,' (tudalen 1), yna mae'n mynd ymlaen i ddweud 'rydym am i bob ysgol yng Nghymru fod yn Ysgol Fro' (tudalen 2, pwyslais wedi'i ychwanegu). Mae angen mwy o eglurder ynghylch hyn.

Mae cyllid strategol yn bryder sylweddol i lawer o arweinwyr ysgolion. Awgrymir bod annhegwch o fewn y peilot presennol ac nad yw'r model hwn yn gynaliadwy yn y tymor hir, oni bai bod cyllid i gefnogi staffio a darparu. Roedd arweinwyr yn teimlo y dylai pob ysgol gael mynediad teg i'r gwasanaethau i gefnogi pob teulu agored i niwed nid yn unig y rhai a ddiffiniwyd fel rhai sydd mewn amddifadedd ariannol.

Ni ddylai cyllid strategol ar gyfer Ysgolion Bro danseilio systemau cyllido ysgolion presennol a chreu bregusrwydd a fyddai'n effeithio ar y teuluoedd a'r disgyblion mwyaf difreintiedig yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Mae angen i werthusiadau llawn o gynlluniau peilot presennol Ysgolion Bro ddigwydd ledled Cymru ac mae angen i'r canfyddiadau hyn lywio newidiadau polisi. Mae angen i degwch cyllid grant a chynlluniau peilot polisi fel y rheolwr cymunedol, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, lywio cyllid strategol parhaus sy'n sicrhau tegwch i bawb.

2. Arweinyddiaeth Gydweithredol:

Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd ac atebolrwydd ar y cyd am 'Ysgol Fro.'

Dylai arweinwyr o bob gwasanaeth a sector dderbyn cyfrifoldeb ar y cyd am weithredu a darparu Ysgolion Bro yn llwyddiannus a deall eu cyfrifoldeb a'u hatebolrwydd.

Dylai'r holl bolisiau, strategaethau a dulliau gweithredu gwasanaeth / sector gael eu halinio â'r dulliau Bro a amlinellir gan Lywodraeth Cymru. Cynllunio clir ar gyfer Ysgolion Bro i sicrhau dull cydgysylltiedig sy'n cefnogi plant, pobl ifanc, teuluoedd a'u cymunedau.

Dylai pob arweinydd gydweithio i greu'r weledigaeth, y blaenoriaethau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y gymuned.

Dylai'r weledigaeth gydweithredol ystyried a chynnwys barn pawb o fewn y grŵp gan dderbyn y dylai'r canlyniadau gorau i blant/teuluoedd fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

Ni ddylai arweinwyr gwasanaeth wneud rhagdybiaethau am anghenion y gymuned a pheidio â chymryd gwybodaeth yn ganiataol. Dylent weithio ar y cyd â gwasanaethau eraill i ddeall y cyd-destun, gwybod am eu hasedau a chydweithio i gefnogi disgyblion/teuluoedd. Mae gostyngedd rwydd proffesiynol yn rhinwedd bwerus wrth ddysgu a deall rôl gwasanaethau eraill er budd y gymuned.

Mae sefydlu grŵp rhanddeiliaid yn sicrhau cydraddoldeb a thegwch llais a bod anghenion cymunedau'n cael eu diwallu. Dylai atebolrwydd ar gyfer y grŵp hwn fod ar lefel awdurdod lleol nid ar lefel y rhanddeiliaid.

Mae fframweithiau clir a chryno i archwilio asedau eisoes ar gael ond mae angen eu diweddarau. Ni ddylai fframweithiau gael eu defnyddio gan arweinwyr addysgol fel offeryn blwch ticio ac ni ddylid eu cysylltu â chynlluniau/dyfarniadau achrededig gan fod hyn yn hyrwyddo cystadleuaeth nid cydweithredu.

Er y gall fframweithiau fod yn arf defnyddiol wrth archwilio a datblygu llwybr ar gyfer gweithio mewn ysgolion bro, ni ddylid dwyn arweinwyr ysgolion i gyfrif am y fframwaith hwn, ac ni ddylid ei ddefnyddio i gymharu ysgolion.

Dylai arweinwyr gynnwys llais y plant, pobl ifanc a'r gymuned.

Roedd pob arweinydd yn cydnabod bod ffyniant plant a phobl ifanc yn y dyfodol (yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Cynllun dysgu a gwella parhaus lles cenedlaethau'r dyfodol', Cwricwlwm i Gymru ac ati.) Mae wrth wraidd y weledigaeth ar gyfer Ysgolion Bro.

Dylid nodi a chynnwys plant a phobl ifanc fel rhanddeiliaid allweddol yn y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer dull bro, gan symud cydbwysedd grym a rhoi perchnogaeth iddynt i gael dweud eu dweud wrth nodi a darparu ar gyfer eu hanghenion.

Dylid ystyried agenda Hawliau'r Plentyn UNICEF yn ystod yr holl brosesau cynllunio a phenderfyniadau mewn perthynas â pholisi, gweithredu ac atebolrwydd.

Dylai gwaith cydweithredol gefnogi arweinwyr ysgolion i ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau addysgol craidd.

Dylid adolygu a chryfhau'r canllawiau presennol i gynnwys a chefnogi ymrwymiad ac atebolrwydd gan rhanddeiliaid eraill.

Dylai ysgolion fod yn agored i ffyrdd newydd o weithio gyda gwasanaethau ychwanegol hefyd fel y gwasanaeth ieuencid, a pharchu rolau ei gilydd (e.e., Caniatáu i arweinwyr ysgolion flaenoriaethu anghenion dysgu disgyblion). Fodd bynnag, mae arweinwyr ysgolion o'r farn bod disgwyliad i ôl-lenwi'r materion capasiti mewn gwasanaethau eraill. Mae hyn wedi gwaethygu yn ystod ac ar ôl y pandemig, pan ddaeth y ffin rhwng gofal plant ac addysgu a dysgu yn aneglur. Mae hyn yn anghynaliadwy i ysgolion. Mae ymateb ASCL Medi 2022 i 'Y Rhaglen Lywodraethu 2021-2026', sy'n ymrwymo Llywodraeth Cymru i "fuddsoddi yn amgylchedd dysgu Ysgolion Bro, cydleoli gwasanaethau allweddol, a sicrhau ymgysylltiad cryfach â rhieni a gofawyr y tu allan i oriau traddodiadol", yn cydnabod erydiad gwasanaethau ac na all ysgolion yn unig, ddatrys problemau tldi plant.

Mewn rhai achosion, mae ysgolion sy'n cymryd rhan mewn gwaith amlasiantaethol a chymunedol yn dibynnu ar ewyllys da yn hytrach na chynllunio strategol a defnyddio cyllid nad yw'n cynnig model cynaliadwy hirdymor. Er mwyn gweithredu'r Bil ADY yn llwyddiannus, mae gweithio amlasiantaeth yn ofniad statudol ac mae gan hyn oblygiadau y mae angen eu hymchwilio a'u harchwilio ymhellach o fewn cylch gwaith Ysgolion Bro.

3. Arweinyddiaeth Ysgol:

Cydweithio i ddeall cyd-destun eu hysgol a'u cymuned eu hunain.

Nid yw Ysgolion Bro yn ychwanegiad nac yn gyfyngedig i ardaloedd difreintiedig. Yn wir, mae'n rhan annatod o wella ysgolion, cenedlaethau'r dyfodol a thwf cymunedol.

Felly, mae angen cymorth ar arweinwyr ysgolion i broffilio eu cymunedau a chydweithio â rhanddeiliaid i ddeall eu cyd-destun, gwybod eu hasedau a nodi eu hanghenion.

Er gwaetha'r term 'Ysgolion Bro', dylai arweinwyr addysgol ddeall bod ysgolion yn rhan annatod o'r hyb ond nad dyna yw'r hyb. Mae perchnogaeth a chyfrifoldeb ar y cyd yn hanfodol i ddull Bro.

Dylai arweinwyr addysgol sicrhau eu bod yn deall rolau ysgolion a gwasanaethau fel y gall pob un fanteisio ar y cyfleoedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd i sicrhau gwell canlyniadau i bob dysgwr.

Dylai arweinwyr gydweithio i ddod o hyd i ffyrdd ystyrion o werthuso effaith gwaith cymunedol.

Cydweithio â sectorau eraill i weithredu gweledigaeth leol Ysgolion Bro.

Dylai arweinwyr ysgolion fod yn wylaidd a bod yn barod i wrando ar arbenigedd sectorau eraill a deall mai'r gymuned sydd yn y sefyllfa orau'n aml i nodi ei hanghenion ei hun a'r cymorth sydd ei angen.

Casgliad

I gloi, mae'r ymchwiliad a gynhaliwyd gan Gymdeithion yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn tanlinellu arwyddocâd cydnabyddedig Ysgolion Bro wrth godi dyheadau a safonau ar draws pob sefydliad addysgol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n dangos rheidrwydd hollbwysig: ni all gwireddu Ysgolion Bro fod yn gyfrifoldeb arweinwyr ysgolion yn unig, nac yn gyfrifoldeb yr arweinwyr hynny yn gweithredu ar eu pennau eu hunain. Yn hytrach, mae'n gofyn am newid model tuag at arweinyddiaeth gydweithredol ar draws sectorau, gan bwysleisio rôl anhepgor ymdrechion ar y cyd wrth weithredu Ysgolion Bro yn llwyddiannus. Mae'r ymchwiliad a gomisiynwyd yn amlygu pryder ynghylch gallu arweinwyr addysgol i weithredu elfennau allweddol Ysgolion Bro, gan dynnu sylw at yr angen am gefnogaeth wedi'i thargedu a datblygiad proffesiynol. Ar ben hynny, mae'r astudiaeth yn nodi her sylweddol ar ffurf llwyth gwaith a lles, gan bwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â'r ffactorau hyn i sicrhau cynnydd a llwyddiant parhaus Ysgolion Bro. Yn ei hanfod, mae'r casgliad hwn yn pwysleisio potensial trawsnewidiol arweinyddiaeth gydweithredol ac yn tynnu sylw at yr angen dybryd am strwythurau cymorth cynhwysfawr i rymuso arweinwyr ysgolion i feithrin gweledigaeth Ysgolion Bro.

Medi 2023

Manylion y Cymdeithion:

Gayle Shenton (Pennaeth, Ysgol Gynradd Castell-nedd)
Gavin Gibbs (Uwch Arweinydd Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen)
Rebecca Turner (Pennaeth, Ysgol Acrefair)
Joanne Cueto (Pennaeth, Ysgol Gynradd Maendy)
Noel Fitzgerald (Pennaeth, Ysgol Pen Coch)
Claire Williams (Pennaeth, Ysgol Gynradd Glan Wysg)
Heini Thomas (Pennaeth, Ysgol y Dderi)
Rhian Milton (Pennaeth yr Ysgol, Ysgol Gynradd Tregatwg)
Mair Hughes (Pennaeth, Ysgol Penglais)
Andrew Brassington (Pennaeth, Ysgol Gynradd George Street)
Jayne Woolcock (Pennaeth, Ysgol Gynradd Penlle'r-gaer)
Louise Williams (Pennaeth, Ysgol Gynradd y Santes Fair)



Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

Ysbrydoli Arweinwyr - Cyfoethogi Bywydau
Inspiring Leaders - Enriching Lives

agaa.cymru | nael.cymru

